Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018** |
| **DYDDIAD** | **27 Tachwedd 2018** |
| **GAN** | **Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip** |

**Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018**

**Y Gyfraith sy'n cael ei diwygio**
Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018

- Cyfarwyddeb 2008/50/EC
- Cyfarwyddeb 2004/107/EC
- Cyfarwyddeb 2004/42/EC

Deddfwriaeth Ddomestig

- Rheoliadau Safonau Ansawdd Aer 2010
- Rheoliadau Cyfansoddion Organig Anweddol mewn Paent, Farneisiau a Chynhyrchion Ailorffen Cerbydau 2012
- Rheoliadau Terfynau Uchaf Allyriadau Cenedlaethol 2018

**Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**
Mae gwarchod ansawdd aer yn dod o fewn cymhwysedd.

**Diben y diwygiadau**
Bydd yr OS hwn (sy'n dilyn y weithdrefn negyddol) yn sicrhau y bydd yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i'r Deyrnas Unedig ymadael â'r Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys mynd i'r afael â methiannau, megis rhoi cyfeiriadau at awdurdodau domestig yn lle cyfeiriadau at awdurdodau'r UE (ee y Comisiwn).

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-air-quality-miscellaneous-amendment-and-revocation-of-retained-direct-eu-legislation-eu-exit-regulations-2018

**Pam y rhoddwyd cydsyniad**
Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.